



# YSGOL GYNRADD PARC Y BONT

Llanddaniel Fab, Ynys Môn, LL60 6HB

☎ 01248 422350 ✉ [pcennaeth.parcybont@ynysmon.gov.uk](mailto:pcennaeth.parcybont@ynysmon.gov.uk)

Pennaeth / *Headteacher*: Mr Iwan Wyn Taylor



10/1/21

Annwyl Rieni,

Fel yr addewais, dyma ragor o wybodaeth a manylion ynghylch treialu cyfarfodydd / sesiynau rithiol yr wythnos nesaf. Bydd y sesiynau yma'n gyfle i'ch plentyn gael cyfarfod rhithiol; o fewn ei grŵp blwyddyn; gyda'i athro(awes) ddsbarth drwy Google Meet.

Bydd y sesiynau hyn yn cael eu cynnal gydag Bl.1-6 **bob dydd Llun a dydd Iau** yn ystod yr amseroedd canlynol:

**Bl.1: 9.30 – 10.00**

**Bl.2: 10.00 – 10.30**

**Bl.3: 10.30 – 11.00**

**Bl.4: 11.00 – 11.30**

**Bl.5: 12.00 – 12.30**

**Bl.6: 12.30 – 1.00**

Bydd disgyblion Meithrin a Derbyn yn derbyn fideos byr gan yr athrawes ddsbarth ac fe allant eu gwyllo unrhyw bryd.

Rwyf wedi atodi cyfarwyddiadau ar sut y gall eich plentyn ymuno â'r cyfarfodydd rhithiol ar 'Google Meet'. Mae Bl.3-6 yn gyfarwydd â Google Classroom. Bydd angen i rieni Bl1 a 2 ddilyn cyfarwyddiadau Miss Williams ar SeeSaw. Bydd angen i'ch plentyn ymuno â sesiwn Google Meet drwy 'Google Classroom' ar 'Hwb'. Hefyd, mae enw defnyddiwr a chyfrineiriau Hwb Bl1 a 2 wedi eu rhannu gyda rhieni drwy SeeSaw.

Rwyf hefyd wedi atodi 'Cytundeb a Chod Ymddygiad ar gyfer mynychu cyfarfod byw ar-lein'.

Sicrhewch eich bod yn darllen y gytundeb. **Llenwch y ffurflen fer yma ar-lein i sicrhau eich bod yn cytuno â'r gytundeb a'r disgwyliadau yma os gwelwch yn dda:**

[https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=Ug4\\_TzS3ZEGUCRtgHRR5k2JdRIORle1LvgQxUHGcm8VUOFA1WUxQNEJXSIIIGVIZFNVRQNjZTS1RPUS4u](https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=Ug4_TzS3ZEGUCRtgHRR5k2JdRIORle1LvgQxUHGcm8VUOFA1WUxQNEJXSIIIGVIZFNVRQNjZTS1RPUS4u)

**Peidiwch â phoeni yn ormodol am y sesiwn 'fory – treial fydd hwn ac fe fydd problemau technegol yn anochel.**

Cofiwch gysylltu â ni i gael unrhyw arweiniad neu gefnogaeth bellach.

Cofion gorau,

**Iwan Wyn Taylor**  
(Pennaeth)

## YSGOL PARC Y BONT

### Cytundeb Rhieni er mwyn i ddisgyblion fynychu cyfarfod byw ar-lein



Deallaf y caiff fy mhlentyn ganiatâd i ymuno â sesiwn ar-lein yr ysgol ar y ddealltwriaeth y bydd fy mhlentyn fel dysgwr a minnau fel rhiant yn ymrwymo i'r cod ymddygiad:

- 1) Rwyf yn cytuno i ddarllen a thrafod y cod ymddygiad ar y cyd gyda fy mhlentyn.
- 2) Byddaf yn sicrhau y bydd fy mhlentyn wedi gwisgo'n briodol ar gyfer y sesiwn. Deallaf nad ydy gwisgo pyjamas/dillad nos yn cael ei ystyried yn wisg briodol.
- 3) Byddaf yn ceisio sicrhau bod fy mhlentyn mewn ystafell addas e.e. ystafell fyw neu ystafell fwyta neu ystafell deuluol arall.
- 4) Byddaf yn ceisio sicrhau nad oes dim arall yn digwydd yn yr ystafell e.e. byddaf yn sicrhau fod y teledu wedi ei ddiffodd ac nad oes dim yn tynnu sylw neu darfu ar y sesiwn. Byddaf yn gwneud fy ngorau i sicrhau fod awyrgylch yr ystafell yn addas i'r plentyn gael sesiwn hefo grŵp o ddisgyblion eraill.
- 5) Deallaf fod yr un safonau ymddygiad yn ddisgwyliedig ag sy'n ddisgwyliedig yn yr ysgol. Deallaf y bydd yr athro yn torri cysylltiad os oes unrhyw ymddygiad amhriodol gan fy mhlentyn.
- 6) Byddaf yn gwneud yn siwr **nad ydy unrhyw ran o'r sesiwn yn cael ei recordio** ar unrhyw ddyfais gan unrhyw un yn y cartref.
- 7) Ni fyddaf ar unrhyw gyfrif yn ymuno nac yn tarfu ar y sesiwn (ag eithrio pan yn cynorthwyo fy mhlentyn i ymuno â'r sesiwn ar-lein os oes rhaid). **Mae hyn yn cynnwys peidio bod ar y sgrin o gwbl.**
- 8) Os oes gen i bryder, rydw i'n deall nad yn ystod y sesiwn y dylid mynegi hynny. Gallaf drafod unrhyw bryder trwy gysylltu â'r ysgol ar ôl y sesiwn.

Byddaf yn cytuno i'r gytundeb yma drwy lenwi ffurflen ar-lein sydd wedi cael ei hanfon gan yr ysgol.

## YSGOL PARC Y BONT


### Cytundeb Disgybl ar gyfer mynychu cyfarfod byw ar-lein



*Deallaf y caf ganiatâd i ymuno â sesiynau a chyfarfodydd ar-lein yr ysgol ar yr amod fy mod yn parchu'r côd ymddygiad:*

- 1) Byddaf yn gwisgo`n briodol ar gyfer y sesiwn. Dydi gwisgo pyjamas / dillad nos ddim yn cael ei ystyried yn wisg briodol.
- 2) Mi fyddaf yn ceisio trefnu fy mod mewn ystafell addas e.e.ystafell fyw neu ystafell fwyta - neu unrhyw ystafell ble mae fy nheulu. Ni ddylwn fod yn fy ystafell wely.
- 3) Byddaf yn ceisio sicrhau na fydd swm na dim arall yn digwydd yn yr ystafell fydd yn tarfu ar y sesiwn.
- 4) Byddaf yn rhoi 'mute' ar fy meicroffon pan fydd yr athro neu athrawes yn gofyn i mi wneud, neu bydd yr athro neu athrawes yn gwneud hynny drosta i.
- 5) Byddaf yn gwneud yn siwr nad ydy unrhyw ran o`r sesiwn yn cael ei recordio ar unrhyw ddyfais.
- 6) Bydd rhaid i mi ymddwyn fel y byddwn yn ymddwyn a siarad fel petawn yn yr ysgol gan mai yr un rheolau fydd mewn lle. Byddaf yn gorfod gadael y sesiwn petawn yn cam-ymddwyn.
- 7) Byddaf yn gwrando yn ofalus, yn ymuno yn brydlon a chymryd rhan pan mae'r athro / athrawes yn gofyn i mi
- 8) Rydw i am gael hwyl a mwynhau y profiad newydd yma!

## SUT I YMUNO GYDA SESIWN / CYFARFOD RHITHIOL AR GOOGLE MEET DRWY GOOGLE CLASSROOM



Bydd angen dyfais briodol ar eich plentyn sydd â chamera a meicroffon. Ipad / tabled neu liniadur gyda chamera a meicroffon yw'r opsiwn gorau. Gellid defnyddio dyfeisiau eraill e.e. ffonau clyfar.

**PWYSIG:** Bydd angen i'ch plentyn fynd ar 'Google Meet' **drwy ei 'Google Classroom'**.

Mae Bl.3-6 yn gyfarwydd iawn â Google Classroom. Bydd angen i rieni Bl1 a 2 ddilyn fideo cyfarwyddiadau Miss Williams ar SeeSaw – mae y rhain wedi eu crynhoi isod.

Gellir cael mynediad i Google Classroom yn hawdd trwy unrhyw borwr (Google Chrome yn ddelfrydol) trwy fewngofnodi i gyfrif Hwb eich plentyn <https://hwb.gov.wales/>.

Ar ôl arwyddo i mewn i 'Hwb', bydd angen i chi glicio ar 'Google for Education'.

**Hwb**

Sign in

taylori37@hwbcymru.net


[Can't access your account?](#)

[Sign-in options](#)

Next

Rhaid mewngofnodi gan ddefnyddio 'enwdefnyddiwr@hwbcymru.net' | You must login using 'username@hwbcymru.net'

Cliciwch ar 'Google Class' eich plentyn ac yna cliciwch ar y 'Meet link' ar y diwrnod a'r amser sydd wedi'u pennu ar gyfer pob grwp (gweler isod).



Fel arall, fe allech chi ddefnyddio ap Google Classroom e.e. ar dabled. (Bydd angen i chi sicrhau bod unrhyw apiau wedi'u mewngofnodi gan ddefnyddio enw defnyddiwr a chyfrinair Hwb eich plentyn - efallai y cewch eich annog fwy nag unwaith i nodi enw defnyddiwr a chyfrinair Hwb eich plentyn).

**\*\*Cofiwch ffonio / ofyn am unrhyw arweiniad neu gefnogaeth bellach\*\***

## AMSERLEN SESIYNAU / CYFARFODYDD GOOGLE MEET

Bydd y sesiynau yn cael eu cynnal **bob dydd Llun a dydd Iau ar yr amseroedd isod:**

Bl.1: 9.30 – 10.00

Bl.2: 10.00 – 10.30

Bl.3: 10.30 – 11.00

Bl.4: 11.00 – 11.30

Bl.5: 12.00 – 12.30

Bl.6: 12.30 – 1.00